

## Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Beryl Morris (Cefn Berain) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei brawd, Thomas Evans o Bentrefoelas. Cyflwynwn y teulu cyfan i ofal Duw a gweddiwn y byddant yn adnabod Ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth amdano.

Mae nifer o'n plith heb fod yn dda y dyddiau hyn, rhai nad oes gennym ganiatâd i'w henwi yn Llais Bro Aled. Er hynny, cyflwynwn hwy i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddant yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu. Cofiw'n arbennig hefyd am Dewi Williams (Llanefydd) sy'n cael gofal yn Ysbyty'r Heath, a Robin Davies (Groes) gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar. Da deall fod Robin adref o'r ysbyty ac yn gwella. Dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan i'r cleifion oll.

Llongyfarchiadau i Elen Gwen Williams (Groes) ac Owain ar enedigaeth merch, Awel Elgan. Diolchwn i Dduw amdani, a dymunwn Ei fendith arnynt fel teulu.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Rhiannon Davies (Llansannan) fydd yn dathlu penblwydd arbennig yn y dyddiau nesaf!

### Apêl wedi'r daeargrynfeydd yn Nhwrci a Syria

Fel y gwyddoch, mae'r daeargrynfeydd diweddar yn ne Twrci a gogledd-orllewin Syria wedi lladd miloedd lawer o bobl ac mae eraill wedi eu hanafu'n ddifrifol yn dilyn y daeargrynfeydd diweddar yn ne Twrci a gogledd-orllewin Syria. Mae'r sefyllfa'n dorcalonnus a phobl wedi eu gadael heb loches, a hynny mewn amodau gaeafol a rhewllyd. Yn ogystal â bod angen triniaethau meddygol, mae gwir angen arny'n nhw am lochesau brys, blancedi, dillad cynnes, bwyd a dŵr glân.

Mae DEC (Disaster Emergency Committee) eisoes yn darparu cymorth brys yno ac rydym yn gwahodd **unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu'n ariannol** trwy'r Ofalaeth i wneud hynny ar-lein (anfonwch neges i Mair i gael y manylion banc) neu gallwch anfon sic i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled' gydag 'Twrci/Syria' wedi ei ysgrifennu ar y cefn **erbyn diwedd Chwefror**, os gwelwch yn dda. Ein bwriad yw trosglwyddo'r arian i Apêl DEC er mwyn iddynt gael darparu cymorth uniongyrchol i'r rhai mewn angen. Diolch am bob cyfraniad sydd eisoes wedi dod i law.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

**Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (8<sup>fed</sup>),**

**os gwelwch yn dda.**

# Llais Bro Aled



Dydd Sul, 26 Chwefror 2023

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Gan ei bod yn hanner tymor, buom fel teulu'n treulio'r ychydig ddyddiau diwethaf yng nghyffiniau Abertawe. Er bod gennym berthnasau a ffrindiau yno, mae'n rhaid i mi gyfaddef ei bod hi'n ardal ddieithr i mi. Ac o'r herwydd bu'n rhaid i mi ddibynnu'n drymach nag arfer ar y Sat Nav, a gwranddo'n astud ar gyfarwyddiadau Gwenno (fu'n byw yn y ddinas am dair blynedd tra'n fyfyrwraig yno).

Gwnaeth hyn i mi sylwi profiad mor wahanol yw gyrru ar ffyrdd anghyfarwydd! Lle y byddwn fel arfer yn mynd o Lansannan i Abergele neu Ddinbych heb feddwl rhyw lawer am y daith, yn Abertawe mae pob cyffordd a chylchdro yn dod â phenderfyniadau brys angen eu gwneud! A'r cyfan yn eich gorfodi i ganolbwyntio'n galed ar le'r ydych, a lle fydd pen y daith.

Efallai fod rhai ohonoch yn crafu eich pen gan feddwl, pam y panics Rhodri? Os yw Gwenno'n gyfarwydd â'r ardal, gwranddo arni hi! Cyngor doeth, ond cofiwch fod Gwenno'n gyfarwydd ag Abertawe ugain mlynedd yn ôl. Sawl gwaith ar y gwyliau daethom at drefn ffordd wahanol neu adeiladau newydd nad oedd Gwenno hyd yn oed yn gwybod sut i'w cyrraedd!

Tybed ydych chi wedi cael profiad tebyg wrth i'r cyfarwydd ddiflannu a chithau'n gorfod wynebu amgylchiadau a phenderfyniadau annisgwyl? Mae'n siŵr mai'r hyn sy'n ein hysgwyl fwyaf yw'r teimlad hwnnw o golli rheolaeth, o fod yn anghysurus gan nad ydym yn gallu troedio mor hyderus ag o'r blaen.

Os felly, cofiw'n fod y Beibl yn annog credinwyr i fod yn ostyngedig, ac i beidio bod yn rhy sicr ohonom ein hunain. Dywed Diarhebion 3:5-7: 'Ymddiried yn llwyr yn yr Arglwydd, a phaid â dibynnu ar dy ddeall dy hun. Cydnabyddia ef yn dy holl ffyrdd, bydd ef yn sicr o gadw dy lwybrau'n union. Paid â bod yn ddoeth yn dy olwg dy hun; ofna'r Arglwydd, a chilia oddi wrth ddrwg.'

Mae'r Beibl yn cynnwys nifer helaeth o bobl wedi bod yn yr un cwch â ni! Nid oes angen i ni wybod pob cam o'r daith o'n blaenau, dim ond adnabod yr Un sy'n ein tywys. Iesu yw'r un a droediodd o'i wirfodd y ffordd erchyll honno i'r Groes er ein mwyn, er mwyn i'r Cristion fedru dweud fel Paul: 'Ynddo ef, a thrwy ffydd ynddo, yr ydym yn cael dod at Dduw yn eofn a hyderus.' (Effesiaid 3:12). Fel y disgyblion cyntaf, gallwn ninnau 'adael popeth, a'i ganlyn Ef' (Luc 5:11) trwy roi'n ffydd yng Nghrist. Wedi i ni wneud hynny, cawn ninnau brofi'r hyfrydwch o dderbyn yr Ysbryd Glân i'n nerthu a'n harwain bob cam o'r ffordd.

Rhodri

## Cyhoeddiadau'r Fro

### Dydd Sul, Chwefror 26<sup>ain</sup>

- **Cynhelir Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn Llansannan** am 9:30, **yn Llanfair** am 10:00, **ac yng Nghefn Meiriadog** am 10:30. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Meiriadog am 2:00.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad Celfyn Williams. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10:15.
- **Oedfa Gymun yn Saron** am 10:00 ac **Oedfa yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Rhodri.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

### Dydd Mawrth, Chwefror 28<sup>ain</sup>

- **Cinio Jangl** yn Ffestri Llansannan am 12:00.

### Dydd Iau, Mawrth 2<sup>il</sup>

- **Hwyl Pnawn Iau (oedran derbyn – Bl.6)** yn Ffestri Llansannan o 3:15–4:30 o dan ofal Rhodri a Gwenno a gweithwyr Coleg y Bala.

### Dydd Gwener, Mawrth 3<sup>ydd</sup>

- **Paned a Sgwrs yng Nghapel Llanefydd** am 10:00. Croeso cynnes i bawb.

### Dydd Sul, Mawrth 5<sup>ed</sup>

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **Oedfa Gymun yn Llanfair** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn Groes** am 10:00. Bydd **Ysgol Sul yn Henllan** am 10:00 a **Gwasanaeth Gŵyl Ddewi Undebol yng Nghapel Henllan** am 2:00.
- **Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00.
- **Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yng Nghefn Berain ac yn Llanefydd** am 10:00.
- **Te Prynawn i ddatlu Gŵyl Ddewi yng Nghapel Llanefydd** gydag adloniant gan Sioned, Acre Isaf am 3:30. Pris: £6.00 i oedolion a £3.00 i blant ysgol gynradd. Enwau i Gwenan, Tyddyn Ucha erbyn dydd Mercher, Mawrth 1<sup>af</sup>, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6:00 gyda Rhodri yn pregethu.

### Dydd Llun, Mawrth 6<sup>ed</sup>

- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM:** 'Yn edrych ar enwau'r Iesu' am 7:00 yr hwyr o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071) Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.

### Dydd Mawrth, Mawrth 7<sup>fed</sup>

- **Paned a Sgwrs** yn Ffestri Llansannan am 1:30 y pñawn. Edrychwn ymlaen i gael cwmni Beca Ellis fydd yn dangos ei gwaith llaw. Croeso cynnes i bawb.

### Dydd Iau, Mawrth 9<sup>fed</sup>

- **Hwyl Pnawn Iau (oedran derbyn – Bl.6)** yn Ffestri Llansannan o 3:15–4:30 o dan ofal Rhodri a Gwenno a gweithwyr Coleg y Bala.

### Dydd Gwener, Mawrth 10<sup>fed</sup>

- **Swper Gŵyl Ddewi Cymdeithas Llansannan** yn y Ffestri am 7.00. Enwau i Alun a Sian (870723) erbyn dydd Mawrth (7<sup>fed</sup>), os gwelwch yn dda. Y gŵr gwadd fydd Dyfrig Roberts, Hen Golwyn a theitl ei sgwrs fydd "Gwên yn y Gwaith".

### Dydd Sadwrn, Mawrth 11<sup>eg</sup>

- **Bore Coffi** wedi ei drefnu gan Eglwys Unedig Llansannan i godi arian tuag at Apêl Daeargryn Twrci/Syria yn Ffestri Capel Coffa Henry Rees o 10:00 – 12:00. Gwerthfawrogir cyfraniadau tuag at y stondin gacennau a chynnyrch. Croeso i bawb.

### Dydd Sul, Mawrth 12<sup>fed</sup>

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Hywel Meredydd. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan, a bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2:00.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri. Bydd Ysgol Sul yn dilyn yr oedfa yn Groes.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

### Rhaglen Cymanfaoedd Canu 2022-23

Os hoffech gael copi o'r Detholiad ar gyfer 2022-23 (Hen Nodiant a/neu Sol-ffa), rhowch eich archeb i arolygwr eich Ysgol Sul (neu i Mair) **erbyn dydd Sul, Chwefror 26<sup>ain</sup>**, os gwelwch yn dda. Pris: £2.00.